Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru

Aelodaeth Tîm 2024-25

Rydyn ni'n rhwydwaith cynhwysol o bobl sy'n gwneud newidiadau, ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau, sy'n rhannu cred yng ngwerth cyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad, ac sy'n dod at ein gilydd i ysbrydoli, i rymuso ac i gefnogi'n gilydd.

Mae ein haelodaeth i unigolion yn rhad ac am ddim, am byth: gall unrhyw un sydd â diddordeb ymuno heb unrhyw gyfyngiadau o ran cost neu ganiatâd.

Mae'r ffi ar gyfer aelodaeth tîm yn ein galluogi i gynnal y rhwydwaith egnïol hwn o bobl, grwpiau, tîmau a sefydliadau, sy'n gwireddu cyd-gynhyrchu trawsnewidiol yng Nghymru, a'i gefnogi . Yn gyfnewid, fel sefydliad sy'n aelod, rydych yn enwebu eich hyrwyddwyr cyd-gynhyrchu, a gallant fod yn aelodau o staff, yn wirfoddolwyr, yn ymddiriedolwyr, yn ddefnyddwyr gwasanaethau, a/neu'n bobl sy'n gweithio yn eich sefydliad neu'n agos at eich sefydliad. Mae'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu yn eu helpu i wella'u harfer cyd-gynhyrchu, ei ddatblygu ymhellach ar draws eich tîmau, cynyddu eich effaith fel sefydliad, a hyrwyddo eich nodau cyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad strategol.

Buddion aelodaeth unigol:	Mae aelodaeth tîm yn cynnig hyn oll i'ch hyrwyddwyr, yn ogystal â:
• Cyfleoedd i rwydweithio ag aelodau eraill a dod i gyswllt â nhw, a dysgu o arfer cyffredin • Mynediad at wybodaeth ac adnoddau, sesiynau briffio, sesiynau hyfforddiant a gweminarau ar themâu penodol • Bod yn rhan o fudiad sy'n cyflwyno llais unedig i ddylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau	• Phecyn croeso sy'n cynnwys llawer o wybodaeth ac adnoddau defnyddiol • Cyswllt blynyddol i weld beth yw'ch anghenion cyd-gynhyrchu o ran nodau, dyheadau a datblygiad. • Hyfforddiant "hyrwyddwyr cyd-gynhyrchu" i'w harfogi â'r adnoddau a'r sgiliau i rannu cyd-gynhyrchu ac i gefnogi dysgu ac arfer eu cydweithwyr • Mynediad cynnar a gostyngiadau ar ddigwyddiadau â thocyn a chyrsiau e-ddysgu • "Clinigau cyd-gynhyrchu" chwarterol, sef digwyddiadau anffurfiol i ddysgu gan gyfoedion, lle gallwch ddod at eich gilydd i archwilio glo mân cyd-gynhyrchu – rhywle i drafod profiadau a'u harchwilio ac i siarad am syniadau newydd a phroblemau dyrys • Bathodyn ac asedau digidol ar gyfer eich gwefan a llofnod eich e-bost, i ddangos ymrwymiad eich sefydliad i gyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad

Cwestiynau? Siaradwch â ni - aelodau@copronet.wales

Dros Gymru decach a mwy cynaliadwy lle mae gan bawb lais sy'n cael ei glywed:

copronet.cymru | aelodau@copronet.wales

Mae The Co-production and Involvement Network for Wales Ltd, yn gwmni preifat dielw, cyfyngedig trwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Mae'n masnachu fel The Co-production Network for Wales/Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru. Rhif y Cwmni 12009551. Rhif TAW GB 328 6382 80.

Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru

Manylion aelodaeth a chostau 2024-25

Ar gyfer pwy mae hyn?

Gallwch ymuno fel tîm, fel adran neu fel sefydliad cyfan. Gallwch fod o'r sector statudol, nid-er-elw neu academaidd.

Nid oes rhaid i chi fod wedi'ch lleoli yng Nghymru cyn i chi allu elwa ar fod yn rhan o'r gymuned o ymarferwyr! Os nad ydych yn gweithio yng nghyd-destun polisi datganoledig Cymru, fe fydd hyn ar ei fwyaf defnyddiol os oes gan eich sefydliad ymrwymiad strategol a/neu bolisi wedi'i sefydlu i gyd-gynhyrchu.

Sut mae'n gweithio?

Cewch ddewis nifer yr hyrwyddwyr yr ydych am eu henwebu, er mwyn eirioli dros gydweithwyr, a'u cefnogi gyda chyd-gynhyrchu. Mae eich ffioedd aelodaeth yn seiliedig ar eich nifer o hyrwyddwyr.

Hyrwyddwyr	Llywodraeth a sector statudol	Trydydd sector cenedlaethol a mawr	Trydydd sector rhanbarthol a chanolig	Trydydd sector lleol, cymunedol a bach
1 i 5	£726+ TAW (£871.20)	£484 + TAW (£580.80)	£242 + TAW (£290.40)	£121 + TAW (£145.20)
6 i 10	£1,452 + TAW (£1742.40)	£968 + TAW (£1161.60)	£484 + TAW (£580.80)	£242+ TAW (£290.40)
11 i 20	£2,904 + TAW (£3484.80)	£1,936 + TAW (£2323.20)	£968 + TAW (£1161.60)	£484 + TAW (£580.80)
21 neu fwy	Wedi'i deilwra yn seiliedig ar £145 + TAW i bob hyrwyddwr, y flwyddyn	Wedi'i deilwra yn seiliedig ar £97 + TAW i bob hyrwyddwr, y flwyddyn	Wedi'i deilwra yn seiliedig ar £48 + TAW i bob hyrwyddwr, y flwyddyn	Wedi'i deilwra yn seiliedig ar £24 + TAW i bob hyrwyddwr, y flwyddyn

Y print mân:

- Mae Aelodaeth yn flynyddol ac yn rhedeg o 1 Ebrill hyd nes 31 Mawrth.
- Mae Aelodaeth Oes ar gael ar gyfer prosiectau: pro rata yn ôl hyd eich prosiect cyfnod-penodol mewn misoedd llawn, hyd at uchafswm o 5 mlynedd.
- Ar hyn o bryd telir am yr aelodaeth trwy anfoneb (yn y dyfodol byddwch yn gallu cofrestru, adnewyddu a thalu ar y wefan).

Dros Gymru decach a mwy cynaliadwy lle mae gan bawb lais sy'n cael ei glywed:

copronet.cymru | aelodau@copronet.wales

Mae The Co-production and Involvement Network for Wales Ltd, yn gwmni preifat dielw, cyfyngedig trwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Mae'n masnachu fel The Co-production Network for Wales/Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru. Rhif y Cwmni 12009551. Rhif TAW GB 328 6382 80.